# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Redcroft**

**Cartref Preswyl Redcroft**
**1-3**
**Heol Alexandra**
**Bae Colwyn**
**LL29 7YB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

17/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Redcroft

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br><br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | ARG BUSINESS ASSOCIATES LIMITED |
| Lleoedd cofrestredig | 14 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 5 Rhagfyr 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn mwynhau byw yng Nghartref Gofal Redcroft. Maent yn hoffi'r dewis sydd ganddynt o ran sut y cânt eu cefnogi a golwg yr amgylchedd a'r cyfleusterau sydd ar gael yno. Maent yn mwynhau byw eu bywydau fel y mynnent, gan ddilyn eu diddordebau a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth lle y bo'n bosibl. Caiff y bobl gymorth i gael gafael ar ofal iechyd ac unrhyw gyfarpar sydd ei angen arnynt i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn rhoi gwybod i'r staff sut i helpu i gefnogi'r bobl yn unol â'u dewisiadau; caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn gywir. Mae'r bobl yn gwerthfawrogi'r staff ac yn eu canmol am fod yn hwyliog, yn garedig ac yn frwdfrydig. Mae pob aelod o'r staff yn ymgymryd â gweithdrefnau recriwtio cadarn ac yn cael hyfforddiant mewn meysydd allweddol. Mae'r cartref yn gyfforddus, yn lân ac yn gartrefol ac mae'r bobl yn fodlon ar eu hystafelloedd eu hunain. Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol am ei fod yn bresennol yn y cartref yn rheolaidd ac yn cyflogi tîm rheoli er mwyn sicrhau ei fod yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'n gwybod beth sy'n gweithio'n dda a lle y mae angen gwneud gwelliannau.

## Llesiant

Mae'r bobl yn ymarfer dewis a rheolaeth mewn ffyrdd amrywiol. Mae'r cyfarfodydd misol i breswylwyr yn ceisio barn y bobl ar faterion fel bwyd a gweithgareddau. Mae'r cogydd yn ymweld â phob person bob bore i roi gwybod iddo beth sydd ar y fwydlen ac yn gofyn iddo a fyddai'n well ganddo ddewis amgen. Dywedodd y bobl wrthym fod ganddynt gydberthnasau agored a chyfforddus â'r staff a gallant ddweud wrthynt sut maent yn teimlo a mynegi eu dewisiadau ar unrhyw adeg. Mae'r bobl yn canmol y staff am eu caredigrwydd a'u hagweddau gofalgar; cânt eu trin ag urddas a pharch. Nid oes unrhyw aelodau o'r staff gofal yn siarad Cymraeg yn rhugl ar hyn o bryd, ond bydd y gwasanaeth yn trefnu bod y dogfennau yn cael eu cyfieithu ac yn sicrhau bod yr arwyddion yn ddwyieithog. Ni allant sicrhau y gall y bobl sy'n siarad Cymraeg gyfleu eu hanghenion yn eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gynnal eu hiechyd a'u llesiant am fod y staff yn wyliadwrus, yn ymatebol ac yn frwdfrydig; maent yn gofyn am gymorth ar unwaith os oes angen. Mae gwella ffitrwydd yn rhan o'r rhaglen weithgareddau, drwy wneud ymarfer corff ysgafn a chwarae gemau pêl. Mae'r gwasanaeth yn eirioli ar ran y bobl am gymorth gan asiantaethau allanol pan fo angen, ac mae'r bobl yn cael gafael ar y cymorth cywir i hyrwyddo a chynnal gofal y geg, eu clyw a'u gallu i weld. Mae'r bobl yn canmol y staff am eu gallu i godi eu hwyliau gyda'u hagwedd hwyliog a chyfeillgar a'u parodrwydd i wrando.

Caiff y bobl eu diogelu gan fod y staff yn cael eu cyfarwyddo drwy bolisïau a hyfforddiant ar sut i nodi achosion o gamdriniaeth a'r ffordd o gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r cyfarfodydd i breswylwyr yn fodd i bobl godi unrhyw beth nad ydynt yn fodlon arno, ac mae'r staff yn creu awyrgylch ysgafn gan annog y bobl i siarad yn onest am eu gofal. Mae 'polisi drws agored' ar waith felly mae'r staff, y preswylwyr a'u perthnasau yn teimlo y gallant siarad â'r rheolwr ar unrhyw adeg os bydd ganddynt bryderon. Gwelsom y bobl yn mynd i'r swyddfa drwy gydol y dydd, ac yn sgwrsio'n rhydd â'r rheolwr.

Caiff ymwelwyr groeso cynnes yn y cartref. Mae ardaloedd preifat i gynnal sgyrsiau, gan gynnwys ystafelloedd gwely'r bobl eu hunain. Mae gan y bobl eu dyfeisiau gwe eu hunain a ffonau ar gyfer cyfathrebu â theulu a ffrindiau, a chânt eu hannog i hel atgofion yn ystod gweithgareddau grŵp a gyda'r staff sy'n cymryd amser i sgwrsio. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd teulu a ffrindiau.

Mae Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth yn buddsoddi yn y cartref i sicrhau bod y bobl yn fwy cyfforddus a'u bod wedi setlo yn eu hamgylchedd. Caiff anghenion a dewisiadau unigol

mewn perthynas â'r amgylchedd eu bodloni cymaint â phosibl; caiff cyfarpar ei geisio er mwyn sicrhau bod y bobl yn fwy diogel a chyfforddus.

## Gofal a Chymorth

Caiff y cynlluniau gofal eu cadw'n gywir ac yn gyfredol gan eu bod yn cael eu llunio ar y cyd â'r person ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn nodi'r canlyniad yr hoffai'r person ei gyflawni yn glir. Maent yn cynnwys manylion am yr hyn y gall y bobl ei wneud drostynt eu hunain er mwyn sicrhau y gallant barhau i wneud hynny ac nad yw eu hannibyniaeth mewn perygl. Nid yw pob un o'r cynlluniau gofal yn cynnwys yr un lefel o fanylder er mwyn esbonio'n glir i'r staff y math o gymorth sydd ei angen, ond mae'r rheolwr wrthi'n adolygu pob un o'r rhain i sicrhau eu bod yn cynnwys y wybodaeth gywir. Mae'r rheolwr yn awyddus i weithredu ar unrhyw feysydd y gellir eu gwella.

Caiff y bobl ofal a chymorth o'r ansawdd sydd ei angen arnynt am eu bod wedi helpu i lunio eu cynlluniau personol; maent yn rhannu eu dymuniadau personol, eu dewisiadau a'u dyheadau yn ystod y broses asesu. Gwelsom y bobl yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn treulio amser yn gwneud yr hyn y maent yn dymuno ei wneud. Mae un person am aros yn ei hystafell am ei bod yn mwynhau ei chwmni ei hun. Mae hefyd yn mwynhau cael rhywun i dylino ei dwylo a thrin ei dwylo a'i hewinedd. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn cael eu trin yn dda ac yn cael y gofal y maent yn dymuno ei gael. Disgrifiwyd y staff fel unigolion *'happy and kind, friendly and they cheer you up'* a dywedwyd, '*when I ask for something, it comes immediately. They respond straight away'.* Mae'r bobl yn gwerthfawrogi'r dewis a gynigir o ran eu harferion beunyddiol, y bwyd a'r gweithgareddau. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys chwarae sgitls a bingo, cwblhau chwileiriau a gwneud ymarferion corff yn y gadair freichiau. Caiff risgiau eu hasesu a'u rheoli er mwyn sicrhau bod y bobl yn ddiogel wrth ymgymryd â gweithgareddau o'r fath.

Ystyrir yr anghenion arbenigol a chânt eu diwallu, os oes modd, a chaiff cyfarpar ei geisio a gwneir addasiadau. Cysylltodd y rheolwr ag asiantaeth i holi am sgwter symudedd i unigolyn a oedd am ddarganfod yr ardal yn fwy annibynnol. Roedd angen cymhorthion clyw newydd ar rywun arall ar ôl dod i fyw yn y cartref, a chafodd hyn ei drefnu. Mae'r gwasanaeth wedi cael canmoliaeth am y wybodaeth gynhwysfawr ond cryno y mae'n ei darparu pan fo rhaid i unigolyn fynd i'r ysbyty. Mae hyn yn ddefnyddiol i staff yr ysbyty sydd angen gwybod am y ffordd orau o gefnogi'r unigolyn.

Mae systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau. Rhaid i bob aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant ar feddyginiaeth ac ymgymryd â gwiriadau cymhwysedd rheolaidd er mwyn sicrhau bod eu hymarfer yn adlewyrchu eu gwybodaeth. Mae'r staff yn cofnodi pryd y byddant yn rhoi meddyginiaeth ar unwaith ar ddyfeisiau a ddelir â llaw sydd wedi'u cysylltu â chronfa ddata y gwasanaeth. Mae hyn yn lleihau'r risg o gamgymeriad ac yn sicrhau bod

y cofnodion yn gyfredol. Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r stoc o feddyginiaethau a chofnodion.

## Yr Amgylchedd

Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnig amgylchedd sy'n cynnwys cyfleusterau a chyfarpar sy'n galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r cartref wedi'i leoli ar ffordd ymyl dawel lle y mae'n fwy diogel i gerdded heb ormod o draffig a gwnaethom gyfarfod â phobl a oedd wedi cael eu cefnogi mewn sawl ffordd i wneud hyn; maent yn cerdded yn y gymdogaeth ac weithiau yn cwrdd a sgwrsio â'r cymdogion. Mae ystafelloedd rhai o'r bobl eraill wedi cael eu haddasu i gefnogi eu hannibyniaeth barhaus â gofal personol. Mae sawl teledu clyfar o amgylch y cartref er mwyn i'r bobl wylio eu hoff ffilmiau a rhaglenni a gwrando ar gerddoriaeth o'u dewis. Mae lifft grisiau ar gael sy'n galluogi'r bobl i fynd i'r llawr cyntaf yn ogystal â ramp er mwyn iddynt fynd i'r gerddi ym mlaen ac yng nghefn yr adeilad. Mae pob un o'r ystafelloedd gwely wedi'u personoli â lluniau, dodrefn a phethau eraill sy'n bwysig i'r unigolyn; mae cyfleusterau en-suite yn y rhan fwyaf o'r ystafelloedd gwely, ac mae digon o doiledau a chyfleusterau ymolchi ar gael mewn rhannau eraill o'r cartref. Mae'r cartref yn lân, yn gartrefol ac yn gyfforddus; mae rhai o'r ystafelloedd yn fawr ac wedi'u goleuo'n dda gyda golau naturiol o'r ffenestri mawr.

Mae darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch drwy gynnal archwiliadau rheolaidd o'r adeilad. Mae'r staff cynnal a chadw yn cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch misol o'r cartref a chynhelir amrywiaeth o wiriadau diogelwch eraill yn ôl yr angen yn unol â'r rheoliadau.  Mae'r cofnodion yn dangos bod y cyfarpar tân, y goleuadau mewn argyfwng, drysau tân ac ardaloedd pwysig eraill sy'n ymwneud â diogelwch tân yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Cynhelir ymarferion tân ac mae asesiad risg tân manwl ar waith. Cynhelir gwiriadau diogelwch ar y tymereddau dŵr; caiff gwiriadau diogelwch eu cynnal yn y gegin yn ddyddiol a gwneir cofnod o dymereddau pob oergell a rhewgell. Gwelsom dystysgrifau diogelwch cyfredol mewn perthynas â gwifrau trydanol, diogelwch nwy, profion offer cludadwy a gwasanaethu teclynnau codi a lifft risiau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae presenoldeb rheolwr i oruchwylio'r ffordd y caiff y cartref ei redeg o ddydd i ddydd, ac ymweliadau rheolaidd y rheolwr gweithrediadau â'r gwasanaeth i ymgymryd â gwiriadau ac i gefnogi'r rheolwr yn helpu i sicrhau bod trefniadau llywodraethu da ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol hefyd yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn cwblhau adroddiad ffurfiol bob tri mis ar y gwiriadau y mae wedi ymgymryd â nhw a'r bobl y mae wedi siarad â nhw. Mae'r rheolwr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Unigolyn Cyfrifol am yr hyn sy'n digwydd yn y cartref a'r hyn sydd ei angen ar bob unigolyn i wella ei brofiad o fyw yno. Mae'r rheolwr yn teimlo ei bod yn cael ei chefnogi'n dda a bod ei barn am unrhyw newidiadau angenrheidiol yn cael ei gwerthfawrogi a'i pharchu. Mae'r darparwr yn barod i fuddsoddi yn y cartref er budd y bobl sy'n byw yno.

Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol systemau sicrhau ansawdd ar waith i fonitro effeithiolrwydd y gwasanaeth. Mae'n mynychu cyfarfodydd staff a chyfarfodydd i breswylwyr weithiau, ac mae'r rheolwr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am yr hyn y mae'r bobl yn ei ddweud. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl yn unigol er mwyn cael eu barn am yr hyn sy'n gweithio'n dda a lle yr hoffent weld gwelliannau neu newidiadau. Mae hefyd yn rhannu gwybodaeth â'r bobl am fuddsoddiadau parhaus yn y cartref a'r hyn sydd ar y gweill. Mae'r bobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn y gwasanaeth ac yn hapus bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi. Nid yw arolygon na holiaduron wedi cael eu defnyddio'n ddiweddar, ond mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bwriadu ailgyflwyno'r dull hwn o gael barn y bobl, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol. Mae'n cynnal adolygiad o ansawdd y gofal bob chwe mis ac yn llunio adroddiad sy'n nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda yn ei farn ef a lle y gellir gwneud gwelliannau yn y dyfodol o bosibl.

Caiff y bobl eu cefnogi'n dda gan fod niferoedd digonol o staff brwdfrydig sydd wedi cael eu hyfforddi i ofalu amdanynt. Dengys y cofnodion fod amrywiaeth eang o hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddarparu i'r staff mewn pynciau sy'n addas i ddiwallu anghenion y bobl. Mae'r rheolwr yn ymgymryd â gwiriadau cymhwysedd ac yn arsylwi ar y staff wrth iddynt ymgymryd â'u gwaith i sicrhau eu bod wedi deall yr hyfforddiant a bod eu hymarfer yn adlewyrchu eu gwybodaeth. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn gan y rheolwr a dengys y cofnodion eu bod yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd lle gallant siarad am eu dyheadau ac unrhyw faterion a allai fod ganddynt. Mae'r ffeiliau personél yn dangos bod y staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o wiriadau addasrwydd a chyfnod sefydlu. Mae'r staff yn mwynhau gweithio yma; maent yn disgrifio'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol fel unigolion '*very good, they are kind, and they listen'.*

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/09/2024